tafod elái

RHAGFYR 2019

Rhif 343

Pris 80c

Tymor Prysur Côr Godre'r Garth

Mae tymor yr hydref wedi bod yn gyfnod prysur i Gôr Godre'r Garth, Efail Isaf, a bydd ffrwyth rhan o'u gwaith i'w glywed yn cael ei ddarlledu ar raglen Caniadaeth y Cysegr, Radio Cymru, am 4:30, 7ed Rhagfyr. Ar y rhaglen bydd nifer o garolau llai adnabyddus i groesawu tymor y Nadolig. Hefyd bu'r côr yn recordio CD yn y gyfres Hoff Emynau.

Dros ddiwedd hanner tymor aeth y côr ar daith i dde Lloegr a derbyn croeso cynnes iawn yn Eglwys Ysbyty Y Cross, Winchester (llun uchod) ac yn Gosport.

Cynhaliodd y côr gyngerdd arbennig llynedd i gefnogi rygbi yn Lesotho a daeth Listsitso i annerch y côr am waith Rygbi Lesotho yn annog bechgyn a merched i chwarae rygbi a chynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau yng nghanol ardaloedd tlawd y wlad.

I gwblhau'r tymor cynhelir Cyngerdd Nadolig Côr Godre'r Garth a Chôr y Cwm yn y Tabernacl, Efail Isaf am 7yh nos Sul 15ed Rhagfyr.

Llwyddiant yn Llanelli

Llongyfarchiadau i Parti'r Efail ar ddod yn ail yn y gysatdleuaeth Parti Canu Gwerin yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llanelli mis Tachwedd.

Casglu Sbwriel

Fel rhan o ymgyrch genedlaethol Llywydd Merched y Wawr eleni aeth wyth aelod o Gangen Y Garth i wneud eu rhan hwythau brynhawn Mercher, 13eg Tachwedd. Roedd y fintai yn falch o dderbyn cymorth parod Paul Pinnell, un o Geidwaid Trefol (*Urban Rangers*) Cyngor Caerdydd, i'n tywys o Ganolfan Y Warden, Fferm y Fforest, Radyr am ryw awr a hanner o gasglu'r sbwriel amrywiol – ac amheus ei natur weithiau – ar hyd Rhodfa Longwood.

Wedi'n harfogi â ffon gasglu, gwasgod lachar, sach a menyg, roedd pawb i'w gweld yn mwynhau eu gwaith! Buom yn ddigon ffodus i gadw'r glaw draw nes cau pen y mwdwl a cherdded cwta ugain munud yn ôl i'r Ganolfan, gan adael i Paul gludo saith sach drom yn ei gerbyd.

Dathlwyd yr ymdrech gyda phaned (a theisen gan rai!) yn Cicchetti's, gan fynegi bwriad i gasglu sbwriel unwaith eto os nad yn rheolaidd. Cyfle i Ferched y Wawr hyrwyddo'u presenoldeb a'r iaith ymysg y di-Gymraeg hefyd efallai?

Rh.W.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
Diolch i holl
Ohebwyr a Dosbarthwyr
Tafod Elái am eich cefnogaeth

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau gwresog i Barbara Griffiths, Heol y Ffynnon a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Ragfyr 18fed.

Yr Ŵyl Cerdd Dant
Llongyfarchiadau i aelodau Parti'r Efail am gipio'r ail wobr yn y Gystadleuaeth Partïon Alaw Gwerin yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Llanelli. Tipyn o gamp mewn cystadleuaeth uchel ei safon. Llongyfarchiadau i aelodau Dawnswyr Nantgarw a Bro Taf ar eu llwyddiant hwythau yn y cystadlaethau Dawnsio Gwerin a Stepio.

Côr yr Einion
Bu aelodau Côr yr Einion yn canu yng Ngŵyl Grefftau Garth Olwg fore Sadwrn, Tachwedd 30ain. Ar Sadwrn 7fed o Ragfyr bydd y Côr yn canu yn Eglwys Llantrisant yng Ngŵyl y Coed Nadolig. Penodir elusen gan y Côr yn flynyddol ac eleni bydd yr aelodau'n cefnogi ADREF sydd yn gweithio gyda'r di-gartref yn Rhondda Cynon Taf. Daw cyfnod dau o swyddogion y Côr i ben ddiwedd y flwyddyn. Diolch o galon i Eifiona Hewitt, y Cadeirydd a John Edmunds, y Trysorydd, am gyfnod o waith diflino i'r Côr. Croeso i Eluned Davies-Scott, y cadeirydd newydd ac i Janet Rowlands a fydd yn brysur yn cyfri'r arian. Diolch arbennig i Gill Williams am ei gwaith diwyd ac am ymgymryd â chyfnod arall fel ysgrifenyddes. Mae'n diolch pennaf i'r ddwy Siân am eu gwaith ymroddgar, Siân Griffiths, ein harweinydd a Siân Elin ein cyfeilyddes.

Sêl Pen Bwrdd
Daeth nifer dda o bobol y pentref ynghyd i gefnogi'r sêl ddydd Sadwrn, Tachwedd 16eg. Trefnwyd amrywiaeth o stondinau ac mae'n debyg fod gwledd ar y stondin deisennau. Gwnaed elw anrhydeddus yn ystod y bore.

Ffair Nadolig
Cynhelir Ffair Nadolig y pentref yn y Neuadd Fore Sadwrn Rhagfyr 14eg. Cofiwch gefnogi'r fenter.

Y TABERNACL
Genedigaeth
Llongyfarchiadau gwresog i Lisa a Patrick sydd newydd groesawu Tomi Dafydd i'r byd. Mae Taid a Mam-gu Tonteg, Pens a Siân wrth eu boddau gyda'r ŵyr bach newydd.

Cylch Cadwgan
Croesawodd Rowland Wynne y bardd



a'r llenor Frank Olding i Gylch Cadwgan i'r Ganolfan yn Efail Isaf nos Wener, Tachwedd 22ain. Mae Frank Olding newydd gyhoeddi cyfrol o farddoniaeth o'r enw "Eilun". Cafwyd noson ddifyn iawn yn ei gwmni ac mi roedd ei hiwmor yn heintus wrth iddo elgluro cynnwys ei gerddi. Eglurodd iddo ddod yn ail yng nghystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd am ei gasgliad o gerddi ac mi ddarllenodd cerddi inni gan fanylu am y cefndir cyn eu darllen. Ar ddiwedd y noson mi wnaeth Y Prifardd Cyril Jones longyfarch Frank yn galonnog gan dynnu sylw'r gynulleidfa taw Cymraeg oedd ail-iaith Frank gan wneud ei gamp yn fwy rhyfeddol.

Hawl i Foli
Bu BBC Radio Cymru yn recordio gêm banel newydd "Hawl i Foli" yn Y Tabernacl nos Sul, Tachwedd 3ydd. Recordiwyd dwy raglen gyda Huw Edwards yn cyflwyno ac yn holi'r cwestiynau. Roedd y cwis yn seiliedig ar emynau, emyn-donau, cyfansoddwyr ac emynwyr. Rhan o ddathliadau Caniadaeth y Cysegr sy'n dathlu 70 mlynedd o ddarlledu yw'r gyfres.

Yn y rhaglen gyntaf aeth R. Alun Evans a'i ferch Betsan Powys ben ben yn erbyn y ddau frawd Robin ac Aled Samuel. Sêr yr ail raglen oedd Hywel Gwynfryn a Rhiannon Ifans yn ymryson ag Eilir Owen Griffiths a Branwen Gwyn. Wnâi i ddim datgelu enwau'r enillwyr – bydd yn rhaid i chi wrando ar y gyfres ar y Radio ddechrau'r flwyddyn newydd.

Merched y Tabernacl
Teithio i'r brif ddinas wnaeth aelodau Merched y Tabernacl fore Gwener y cyntaf o Dachwedd i ymweld â'r Ffair Grefftau yn Neuadd y Ddinas. Ymgasglodd nifer dda o'r aelodau yng nghaffi'r Amgueddfa i gael paned a sgwrs a gerbwd anferthol yr hen ddinosor yn gwgu arnom. Draw â ni wedyn i'r Ffair Grefftau a chael ein synnu gan yr holl stondinau amrywiol. Roedd pob math o emwaith, gwaith lledr, gwaith pren, serameg, crochenwaith, tecstiliau a dillad yno. Roedd yna wledd i'r llygad ac mi wnaeth y merched fwynhau crwydro o stondin i stondin.

Ein cyfarfod nesaf bydd ymweliad â Chartref yr Henoed yng Ngarth Olwg ddydd Mercher, Rhagfyr 11eg am 2 o'r gloch y prynhawn i ganu Carolau a Chymdeithasu.

Dathlu 150 Mlynedd yn Y Tabernacl
Bydd Capel y Tabernacl yn dathlu 150 mlynedd yn ystod y flwyddyn 2020. Fe fydd y dathliad cyntaf nos Wener, Ionawr 31ain yn Y Ganolfan. Don Llewellyn fydd y gŵr gwadd a bydd yn adrodd straeon am gymeriadau ardal Y Garth. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 8 o'r gloch.

Elusennau'r Tabernacl
Mae Pwyllgor yr Elusennau am ddiolch i'r aelodau a fu'n helpu gyda'r Casgliad i'r Banc Bwyd yn Tesco ddiwedd mis Tachwedd.

Diolch hefyd i'r aelodau sydd wedi cyfrannu yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng yr amlenni elusen. Yr elusennau fydd yn elwa eleni fydd Ysgol Tŷ Coch, Adref, Cymorth i Ferched Cymru, Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf a CRICA (Ymchwil i Clefyd Crohn).

Nod arall y Pwyllgor Elusen yw dangos cefnogaeth i bobl ifanc yr ardal sy'n gadael gofal, gan gyflwyno taleb gwerth £20 i bump ar hugain o'r bobl ifanc yma. Mae'r casgliad dillad a nwyddau i Adref, Nantgwyn a Cwtch yn parhau i weithredu. Gellwch roi'r dillad a'r nwyddau mewn sach ddu yn llofft y capel.

Diolch o galon am gefnogaeth hael yr aelodau drwy'r flwyddyn.

Cyngerdd Blynyddol Côr Godre'r Garth
Os am noson hwylus, llawn mwynhad dewch i Gapel y Tabernacl nos Sul, Rhagfyr 15fed i wrando ar Gôr Godre'r garth a Chôr y Cwm. Bydd y cyngerdd yn dechrau am 7 o'r gloch.

Trefn yr Oedfaon am fis Rhagfyr a mis Ionawr
Rhagfyr 1af: gwasanaeth gyda Chôr Caerdydd yn perfformio Sioe Nadolig Emlyn Dole a Chris Davies.
Rhagfyr 8fed: Gwasanaeth Cymun gyda'r Parchedig Aled Edwards
Rhagfyr 15fed: Dathliad Nadolig Plant yr Ysgol Sul
Rhagfyr 22ain: Oedfa'r Twmiaid gyda Geraint Rees
Rhagfyr 24an: Gwasanaeth Noswyl Nadolig am 11 o'r gloch yn hwyr.
Rhagfyr 29ain: Geraint Wyn Davies a Keith Rowlands

Ionawr 5ed: Oedfa Gymun o dan ofal aelodau Pentyrch gyda Karen Owen, y bardd.
Ionawr 12fed: Y Parchedig Aled Edwards
Ionawr 19eg: Sul y Teulu
Ionawr 26ain: Emlyn Davies

Ffair Grefftau Nadolig y Gwaelod y Garth

Ar benwythnos y 16/17eg o Dachwedd fe ymdebygai Neuadd y Pentre, Gwaelod y Garth i ogof Aladdin yn llawn o drysorau cain! Yn flynyddol fe gynhelir Ffair Grefftau o waith crefftwyr talentog Gwaelod a'r cylch ac roedd eleni yn ddarlun o harddwch rhwng paentiadau cywrain Paula Jones, brodwaith celfydd Sandra Rose, gwaith ceramig Jonathan Griffiths, ffotograffiaeth Cai Priestley, cerfiadau hardd Steve Clemo, gemwaith Mandy Morgan, basgedwaith Sarah Hatton . . . a llawer iawn mwy. Anodd iawn peidio â rhyfeddu at sgiliau creu yr artisitiaid oedd yno'n arddangos. Os methoch y Ffair eleni - cofiwch wneud nodyn yn eich dyddiaduron ar gyfer blwyddyn nesa! Gobeithio y cewch flas ar ychydig o'r creadigaethau yn y lluniau. Llongyfarchiadau hefyd i'r cogyddion - roedd yr arlwy ar fwrdd y gegin yn arbennig!

Y Rhaglen Cynefin o Bontypridd

Aeth Cynefin i chwilota hanes ardal Pontypridd ac mae'n werth ei weld ar Clic neu i-Plyer.

Heledd Cynwal yn holi Wil Morus Jones am yr hen bont

Gyda Jayne Rees ym Mharc Ynysangharad

Olrhain y ddawns Y Gaseg Eira gyda Dawnswyr Nangtarw

Caryl Williams yn sôn am chwyldro y grwpiau skiffle a'r Grŵp Triban.

Dean Powell yn sôn am Dr William Price

Alun Caffrey yn y gwaith glo

Gwen Griffiths yng Nghrochendy Nantgarw

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Gyda'i gilydd eto

Roedd Betsi Griffiths yn bennaeth ar Guto Harri yn Ysgol Gynradd Tonyrefail. Roedd hi felly wrth ei bodd i gwrdd â fe ar ôl blynyddoedd lawer pan oedd Guto'n siaradwr gwadd mewn cinio i godi arian i Gronfa Glyndŵr yr ysgolion Cymraeg. Mae Ysgol Gymraeg Tonyrefail yn un o'r cylchoedd meithrin ac ysgolion sydd wedi derbyn nawdd hael gan y gronfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Noson Sgwrsio

Cynhelir y Noson Sgwrsio nesaf nos Fawrth, 7 Ionawr yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm. Croeso i bawb!

Etholiad Cyffredinol

Yn anaml mae Tafod Elái yn cael ei gyhoeddi yng nghanol miri Etholiad Cyffredinol. Mae'r wasg yn canolbwyntio ar negeseuon o Lundain ond mae angen pwyso ar ymgeiswyr i sicrhau fod problemau lleol yn cael eu deall a'u datrys.

I lawer ohonom mae torri cysylltiadau ag Ewrop yn wrthyn. Mae gennym gymaint i roi a chymaint i ddysgu o'n cefndryd Celtaidd ac Ewropeaidd.

Er fod cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg wedi'i drosglwyddo i'r Senedd yng Nghaerdydd mae angen sicrhau fod San Steffan hefyd yn gwneud popeth posib i gefnogi'r iaith yn arbennig ym maes darlledu a'r cyfryngau.

Llongyfarchiadau i Fflur Elin ar gynnal ymgyrch arbennig dros Blaid Cymru. Mae angen gwaed newydd o gynrychiolwyr i gludo neges glir i Lundain.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Clwb y Dwrlyn

Beth ydi'r gair Cymraeg am 'raconteur'? Mae gen i dri - Alun Wyn Bevan! A dwi'n siwr y byddai'r gynulleidfa ddaeth i gyfarfod mis Tachwedd, Clwb y Dwrlyn yn cytuno. Sôn am ddawn y cyfarwydd! Fe gawsom gorwynt o anecdotau ar noson ddigon stormus gyda thyrfa dda wedi ymgynnull i wrando ar y gŵr o Frynaman yn mynd drwy'i bethau. Roedd y cyn brifathro, y dyfarnwr rygbi a'r cyfryngi wedi cael siars i beidio ymhel â chwaraeon gan fod Clive Rowlands newydd fod hefo ni. Felly penderfynodd draethu am Baradwys. A pharadwys iddo fo ydi

Brynaman cartre enwogion lu, o brifeirdd i brifathrawon, actorion i academwyr. Do, mi raffodd enwau lu o wŷr glew sydd wedi disgleirio yn eu maes a'r llinyn arian sy'n eu cysylltu i gyd oedd 'arwyr glew erwau'r glo.' Yr aur du yna, glo carreg neu 'anthracite' yr ardal, oedd y glo gorau yn y byd meddai Alun ac roedd nifer fawr o byllau yn y dyffryn yn cynnwys un bychan oedd yn eiddo i'w dad. Heidiodd pobol o Geredigion a Sir Gâr i weithio yn y glofeydd ac er mor galed oedd y gwaith crewyd cymdeithas glos, ddiwylliedig a Chymraeg iawn yn y fro. Camp y darlithydd yn ddiamheuol oedd cyflwyno gwybodeth am ei filltir sgwar mewn ffordd mor gofiadwy. Yn goron ar y cyfan oedd yr adegau hynny pan âi ar ôl ambell sgwarnog gyda straeon oedd yn gwneud i'r gynulleidfa rowlio chwerthin. Noson fydd yn aros yn hir yn y cof. (Eifion Glyn.)

Taith Tharpa Chuli Nepal

Croeso nôl i Dewi Hughes wedi ei anturiaethau yn Nepal. Mae pawb yn falch iawn o'i weld nôl yn ddiogel a dianaf. Dyma ei adroddiad am y daith.

"Dyma lanio yn Kathmandu wedi taith o ryw ddeuddeg awr gyda'r bwriad o dreulio tair wythnos yn teithio ar drywydd Annapurna a chyrraedd copa Tharpa Chuli mynydd 5663m o uchder (18,579 troedfedd).

Roedd angen hedfan mewn awyren fach o Kathmandu (lle digon prysur, swnllyd a

llawn llygredd erbyn hyn, mae gen i ofn) gyda Yeti airlines (dim Easy Jet fan hyn!) i Pokhara, ail ddinas mwyaf Nepal. Wedi teithio mewn bws am ryw ddwy awr dyma ddechrau ar ein taith fyny y cymoedd gan ddilyn yr afon Jaljale i dref Ghorepandi.

Gan godi gyda'r wawr roedd hi'n werth cerdded i gopa bryn Poon i weld yr haul yn codi dros gwm y Kali Gandaki tuag at fynydd sanctaidd Machapuchhre (mynydd cynffon y pysgodyn) Daulagiri, Nilgiri a'r Annapurnas.

Ar ôl brecwast dyma ddychwelyd lawr y cwm trwy jyngl, coedwigoedd rhododendrons a phîn.Yn wir, dyna fu patrwm y pythefnos nesaf - crwydro fyny a lawr grisiau garw am filltiroedd bob dydd, heibio i bentrefi bach a chysgu mewn pebyll bob nos mewn darn o dir gerbron "teahouses" neu lefydd te. Mae'n bosib aros yn y llefydd yma wrth grwydro fyny a lawr trywydd Annapurna.Ychydig mwy cysurus efallai ond yn bell o fod o safon gwesty pedair seren!

I'r rhai ohonoch sy'n hoffi mesur sawl cam rydych yn cymeryd bob dydd (syniad a ddechreuwyd yn Siapan o gerdded 10,000 bob dydd fel targed) – amcangyfrifwyd ein bod wedi cymeryd tua 450,000 o gamau i gyd naill a'i fyny neu lawr llwybrau serth.

Ymhen hir a hwyr dyma gyrraedd camp Annapurna ac yn wir roedd y teithio werth chweil i weld gogoniant mynydd Annapurna o'm blaen – y copa 8,000m cyntaf a gafodd ei ddringo yn 1950 gan ddau Ffrancwr - Maurice Herzog a Louis Lechenal – mynydd erbyn hyn, yn ystadegol o ran damweiniau angheuol, sy'n cael ei hadnabod fel y mwyaf peryglus i ddringo yn y byd.

Y bwriad oedd dringo copa cyfagos Tharpa Chuli ond er mawr ymdrechion, roedd rhaid troi yn ôl tua 200m o'r copa

gan fod cwymp o greigiau wedi torri y rhaffau. Gwell oedd gwrando ar ddoethineb y sherpas a throi yn ôl am y cwm – dyna natur mynydda ar adegau!

Wedi teithio nôl dros sawl diwrnod roedd hi'n amser ffarwelio gydag eraill oedd wedi ymuno yn y fenter, ac estyn diolch i tua ugain o sherpas a phorthmyn oedd wedi bod yn ein tywys gan gario pebyll a bagiau yn pwyso fyny at 50 pwys ar eu cefnau bob dydd gyda gwên. Rwyn llawn edmygedd ohonynt ac mae yn fy atgoffa faint mor galed maent yn gweithio o ddydd i ddydd.

Mae teithio trywydd Annapurna yn cael ei weld fel o bosib y daith orau o'i bath yn y byd, cystal os nad gwell na thrywydd Everest. Felly, beth amdani?

Gwellhad

Da yw gweld Wyn Rees yn gwella wedi ei anhwylder diweddar.

Bwganod Brain

Eleni eto am yr ail flwyddyn yn olynol adeg hanner tymor roedd y pentref yn ferw o weithgaredd wrth i blant (ac oedolion) fynd ar drywydd y bwganod brain oedd wedi ymddangos mewn rhyw ugain o erddi ledled y pentref. Y dasg oedd cyfleu cymeriadau o lenyddiaeth plant a chafwyd cynigion penigamp. Yr enillydd am yr ail flwyddyn yn olynol oedd Maria Brown o Ael-y-Bryn a phawb wedi mwynhau gweld y Frenhines Hir ei Chwsg, er gwaetha'r tywydd anffafriol, yn gorffwys yn braf yn ei gardd. Gwnaethpwyd elw o £360 a bydd yr arian yn cael ei wario ar adnewyddu'r parc chwarae ger y gofeb ryfel.

Cofio

Tua'r un adeg ymddangosodd arddangosfa hynod drawiadol yng ngardd Mal a Gwyneth Jones, Penffordd. Defnyddiodd Mal ei ddoniau creadigol i ailgylchu hen boteli yna'u paentio gan lunio rhaeadr o babis coch a gwyn ar y lawnt o flaen eu cartref. Roedd y geiriau Cofio a Heddwch ynghyd â dyddiadau'r rhyfeloedd byd yn amlwg ac yn gyfle da i'r holl blant oedd yn crwydro'r strydoedd yn chwilio am gymeriadau llenyddol i gael gwers hanes bwrpasol. Gobaith Mal a Gwyneth yw y bydd y syniad hwn yn cydio ac y gwelir mwy o arddangosfeydd tebyg y flwyddyn nesaf.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Pen-blwydd hapus, '23'!
Mae'r grŵp elusennol ***Creigiau 23*** newydd ddathlu ei ben-blwydd yn hanner cant! Cyflawniad anhygoel! Yr holl godi arian, yr holl gefnogi yn lleol a thu hwnt - mae gan lawer le i ddiolch i waith diflino yr aelodau. A hwythau newydd fwynhau cinio dathlu go fawr yn yr Hilton, Caerdydd yn ddiweddar, dyma argraffiadau Arwel Ellis Owen - ei gŵr gwadd cyntaf nôl yn . . .

Mae'n anodd meddwl bod hanner can mlynedd wedi hedfan heibio ers i mi gyfarch **23** o unigolion yn Clwb Golff Creigiau fel gŵr gwadd cynta cymdeithas cinio misol y pentref. Roedd trên stêm yn ymweld yn wythnosol â'r chwarel, naw twll oedd i'r cwrs golff ac roedd bysus yn cludo ymwelwyr i'r crochendy, tra bod y Creigiau Inn yn glwb - y Constitutional Club. Rhyfedd o fyd. Dathlwyd hir oes a chyfraniad y **23** i fywyd y pentref mewn cinio mawreddog pan ddaeth 150 o aelodau y clwb dros y blynyddoedd i westy yr Hilton.Tri o'r aelodau sefydlodd y **23** oedd yn bresennol - sef Brian Davies, Elwyn Tudno Jones a fi, Arwel Ellis Owen. Roedd 'na ddigon o hel atgofion am sut datblygodd y **23** yn 'Gorff' dylanwadol arweiniodd at sefydlu Côr Cantorion Creigiau, sicrhau cae chwarae ar gyrion y pentref, cynnal clwb criced, trefnu mabolgampau, wedyn carnifal - heb sôn am sicrhau bod Santa yn ymweld yn flynyddol â'r neuadd bentref. Llwyddwyd i ddenu arwyr cenedlaethol ac arweinwyr o bwys i'r ciniawe misol gyda'r addewid o fwg metal hanner peint o gydnabyddiaeth! Noson o gofio camgymeriadau tebyg i'r un o gael pawb i sefyll i dalu teyrnged i aelod oedd yn ôl y Cadeirydd wedi marw - dim ond i'r unigolyn droi fewn yn hwyr i'r cinio! Pwy all anghofio y diweddar Brif Weinidog Rhodri Morgan yn cael llond gwydriad o win coch dros ei siwt newydd ond yn cario mlaen gyda'i araith fel petai dim o'i le. Mi roedd siaradwr gwadd arall wedi goryfed cyn cyrraedd y cinio a methodd a sefyll pan ddaeth ei gyfle. Clwb i ddynion oedd y **23** ond roedd Noson y Merched yn un o brif ddigwyddiadau y flwyddyn yng nghalendr y pentref bron mor bwysig â'r ras flynyddol i famau ar ddiwrnod chwaraeon y pentref. Fe lwyddodd y clwb i ddwyn perswad ar bwyllgor addysg Morgannwg Ganol i sefydlu ysgol yn y pentref ac fe amcangyfrifir bod y clwb wedi codi chwarter miliwn o bunnau at achosion da. Pob rheswm felly i ddathlu sefydlu a bodolaeth clwb ddechreuodd fel cyfle i newydd-ddyfodiaid nôl yn y 60'au ddod i nabod ei gilydd, a'r pentrefwyr oedd yma cyn i Bovis brynu cae a'i droi yn stâd Castell y Mynach. Mae y gweddill yn hanes! A.E.O.

Daniel Watts - bellach yn aelod o dîm Cymru - dan 15!
Falle i chi gofio darllen am gampau Daniel a Moli Watts yn rhifyn diwethaf Tafod Elái - wel, erbyn hyn mae Daniel yn aelod o sgwad Cymru - pêl-droed - ac erbyn i chi ddarllen y pwt yma - bydd wedi bod allan yn Slovakia yn cynrychioli ei wlad. Llongyfarchiadau Mawr, Dan - a dal di ati! Byth rhy ifanc i gael dy ddewis i'r prif dîm - faint yw oedran Ampadu dwed? Dilynwch yr hanes ar @FAWTrust.

Cantorion Creigiau
Hoffai Cantorion Creigiau ddatgan eu diolch i bawb a'u cefnogodd yn y Cyngerdd codi arian at Ysbyty Felindre a Chanolfan Acapela, yng Nghlwb Rygbi, Pentyrch yn ddiweddar. Estynnir croeso cynnes i bawb fynychu eu Cyngerdd Carolau blynyddol gynhelir yn Neuadd yr Eglwys, Creigiau nos Sul, 22ain o Ragfyr am 6.30 yr hwyr. Dewch i fwynhau, i gyd-ganu ac i gymdeithasu. Bydd lluniaeth Nadoligaidd ysgafn ar gael. Ni chodir tâl ond derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar at elusen blant.

Bydd yr ymarferion yn ail-ddechrau nos Sul, Ionawr 12fed, 2020 am 7.30 ynn Nghlwb Golff Creigiau. Mae yna groeso bob amser i aelodau newydd - yn arbennig dynion! Os am fwy o wybodaeth cysyllter â Varion Gapper ar 01443 207923 variongapper@gmail.com Gwefan: www.cantorion-creigiau

Clwb Gwawr Crotesi Creigiau
Croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni tymor yma. Byddwn yn cwrdd yn Clwb Golff Creigiau ar gyfer noson yng nghwmni Nia Evans yn sôn am Fwdhaeth. Clwb Rygbi Pentyrch fydd y lle i fod ar Ragfyr y 5ed i wneud torch Nadolig. Dewch draw am sgwrs.

Noson Gomedi Cymraeg
Dewch draw i Yr Hen Lyfrgell, Porth ar nos Sadwrn Rhagfyr y 7fed am 7.30 am noson o hwyl a sbri. Bydd Iestyn Gwyn Jones, Phil Cooper ac Aled Richards yno i godi eich calonnau.

Mae'r noson am ddim, er bydd croeso i chi roi cyfraniad ar y diwedd!

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Glyn a Teleri a'r bechgyn - Daniel, Iestyn a Morus - ar golli Tad a Thad-cu annwyl yn ddiweddar. Brodor o Gapel Bangor, ger Aberystwyth ydoedd Mr Hywel Jones a dim ond dros yr wythnosau diwethaf y dirywiodd ei iechyd. Yn meddwl amdanoch.

Bu farw Mrs Eluned Thomas o Fferm Pant-y-Gored ar Hydref y 29ain. Roedd Mrs Thomas yn dal i arddel ei Chymraeg hyd y diwedd. Yn fam i Rhydian a'r diweddar Rhodri, cydymdeimlwn â'r teulu yn fawr. Cynhaliwyd ei hangladd ar y 12fed o Dachwedd yn Amlosgfa Llangrallo.

Mabli Tudur! Ma' hi'n hedfan!
Llongyfarchiadau mawr Mabli ar lwyddiant dy albym newydd - **FI YW FI!** Bellach mae Mabli yn ei blwyddyn ola yn astudio Sioeau Cerdd yn Academi Mountfield, Llundain. Casgliad o ddeg o ganeuon sy' ar yr albym - caneuon a gyfansoddodd pan oedd hi yn ei harddegau - am brofiadau sy' wedi siapio ei bywyd.

Dechreuodd berfformio pan oedd hi'n wyth oed. Bu'n ffodus i gael ei magu ar aelwyd gerddorol a hefyd i dderbyn gwersi gan y *'legend ei hun'* Eleri Roberts cyn ymelwa o waith di-flino yr adrannau cerdd a drama yn Ysgol Plasmawr. Ei huchelgais *'yw ennill Oscar!. Am nawr 'dw i'n anelu at fod yn rhan o ddrama ar lwyfan y National Theatre a bydden i'n dwlu bod mewn drama BBC hefyd. 'Dw i'n caru byd y Sioeau Cerdd hefyd . . .'*

Cer amdani Mabli! Byddwn ni'n dilyn dy yrfa gyda diddordeb! Pob lwc yn dy flwyddyn ola yn Llundain.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Allan James

Adrodd Ein Stori

Wrth wynebu'r her dymhorol o greu pwt o gyfraniad ar gyfer y Tafod, am ryw reswm daeth geiriau'r athro Hywel Teifi Edwards i'm meddwl. 'Mae'n hynod o bwysig', meddai, a hynny ar lawer achlysur, 'ein bod yn arddel ac adrodd ein stori' sef stori'r genedl, a'i throsglwyddo i bob cenhedlaeth yn ei thro. O fewn diwrnod, dyma fi'n derbyn galwad ffôn i ddweud wrthyf fod yna gyfarfod arbennig ym Maesteg i ddathlu sefydlu'r Ysgol Gymraeg yn Nantyffyllon, Cwm Llynfi yn 1949 sef 70 o flynyddoedd yn ôl. Gan i'm rhieni sicrhau fy mod yn un o'r garfan gyntaf a fanteisiodd ar y cyfle i dderbyn addysg gynradd Gymraeg nôl yn 1949, roedd y cyfarfod, wrth reswm, o ddiddordeb arbennig. Ond nid yr achlysur ei hun sydd gen i dan sylw ond y stori ddifyr o Edwardsaidd a fu'n gefndir i'r sefydlu, y camau rhyfedd ac annisgwyl hynny a arweiniodd at y datblygiad tyngedfennol.

Yn ystod haf 1864 aeth Matthew Arnold, y bardd a'r ysgolhaig o Sais, gyda'i deulu i ymweld â Llandudno, ei blant yn gweld pabell yn y pellter ac yn teimlo cyffro cychwynnol o ddyfalu fod yno syrcas. Er ddirfawr siom iddynt nid syrcas ond yr Eisteddfod Genedlaethol oedd yno, yr areithio'n ddiflas a nifer o'r seddi'n wag. Roedd gan Arnold ei hun gryn ddiddordeb yn y byd Celtaidd ac eto roedd yna ben draw i'w frwdfrydedd wrth droi at bwnc yr iaith Gymraeg. 'I must say', meddai, 'I quite share the opinion of my brother Saxons as to the practical inconvenience of perpetuating the speaking of Welsh.' Ei nod oedd gweld holl drigolion Prydain yn rhan o 'one homogeneous, English-speaking whole'. Roedd yn iawn i ymweld â'r byd Celtaidd a derbyn mai Saesneg oedd cyfrwng yr ymchwil a'r traethu! O ganlyniad i'r diddordeb hwnnw, bu Arnold yn gyfrifol am sefydlu cadair Astudiaethau Celtaidd yn Rhydychen a phenodwyd y Cymro Syr John Rhys, er ei fod yntau i raddau helaeth yn cofleidio athroniaeth ieithyddol a philistaidd Arnold nad oedd dyfodol i'r iaith Gymraeg fel iaith fyw. Ond yn hollol annisgwyl, death tro ar fyd a thanseiliwyd cynlluniau Arnold mewn modd hynod ddramatig oherwydd ar waethaf agwedd ryfedd Syr John at y Gymraeg, bu ar yr un pryd yn ffigur tadol a charedig yn ystod gyrfa cylch hynod ddethol a galluog o fyfyrwyr rai blynyddoedd ar ôl ei benodi'n athro. Dyma'r cylch a sefydlodd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym ac a fu'n gyfrifol am geisio rhoi trefn ar orgraff yr iaith Gymraeg dan lywyddiaeth Rhys. Er bod y myfyrwyr yn amrywio'n fawr o ran eu cefndir cymdeithasol ac academaidd roedd yna gytundeb brawdol yn hanes agenda'r Dafydd, sef eu bod yn ysu am wneud rhywbeth penodol dros yr iaith Gymraeg. Un o aelodau gwreiddiol y gymdeithas honno oedd O.M. Edwards ac fel y gwyddys, treuliodd ei holl fywyd yn hybu'r iaith Gymraeg mewn amryfal ffyrdd.

Wedi crwydro'n storïol rhaid ailafail yn hanes y dathlu ym Maesteg. Yn ôl y disgwyl yn y cyfnod hwnnw, bu raid brwydro'n ddyfal er mwyn sefydlu ysgol Gymraeg a golygai hynny herio'r Awdurdod Addysg bob cam o'r ffordd. Ond yn un o'r cyfarfodydd, penderfynwyd estyn gwahoddiad i rywun a ystyrid yn arbenigwr yn y maes penodol hwnnw ac, yn y man, ceir cofnod i Syr Ifan ap Owen Edwards ddod yr holl ffordd i Faesteg i gynnig cyngor a chymorth. Seiliwyd y ddadl ar yr hyn a gofnodir yn Neddf Addysg 1944 sef bod hawl i bob plentyn dderbyn addysg yn iaith yr aelwyd. Enillwyd y dydd, ac wedi cyfnod yn defnyddio festri Bethania (Capel y Bedyddwyr lle roedd y parch Geraint Owen, un o arweinwyr yr ymgyrch yn weinidog), llwyddwyd i sefydlu'r ysgol newydd mewn cartref parhaol ym mis Medi 1949.

Mae'n stori ddifyr sy'n croesi pob math o ffiniau hanesyddol a diwylliannol. Ond mae eironi rhyfedd i'w ganfod yn y modd y bu i Arnold yn hollol groes i'w amcanion a'i ddyheadau, agor y drws i ganiatáu cenhadu brwd ac effeithiol dros yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun colegol a oedd i fod i hybu defnydd o'r iaith Saesneg ym mhob cyd-destun academaidd. Braf nodi, yr un pryd, mai mab i un o aelodau cyntaf Cymdeithas Dafydd ap Gwilym a oedd wedi hwyluso'r ffordd i sefydlu Ysgol Gymraeg Nantyffyllon nôl yn 1949, yr ysgol a fydd yn cynnal cyngerdd dathlu ym mis Rhagfyr yn Ysgol Cynwyd Sant, yr Ysgol Gymraeg sydd bellach yn gartref i ddisgyblion cynradd y cwm.

Mae ambell stori yn werth ei diogelu.

Tonteg

Llongyfarchiadau i Lisa a Patrick Lees o Bentre'r Eglwys ar enedigaeth Tomi Dafydd, Tachwedd 8fed, 2019. Ŵyr bach arall i Pens a Sian, Tonteg.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i bawb dros yr wythnosau diwethaf. Yn gyntaf, llongyfarchiadau enfawr i Euros Jones, athro Dosbarth 3 a Lauren Snell, cynorthwywraig Dosbarth 2 ar eu priodas ar Dachwedd y 1af yng Ngwesty Fairy Hill, Abertawe. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Nesaf i'r byd chwaraeon a da iawn i bawb a gynrychiolodd yr ysgol yng Ngala nofio'r Urdd yn Ynysawdre. Llongyfarchiadau i Joshua Arnold am ddod yn ail yn y ras cefn i fechgyn Blwyddyn 3 a 4. Yn ogystal, cystadlodd criw o blant yn Nhwrnamaint Pêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant. Chwaraeodd pawb yn wych a da iawn i Dîm A a fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf ym mis Ionawr.

Mae cerddorion yr ysgol wedi bod yn brysur hefyd. Cafodd disgyblion Blynyddoedd 2-6 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy drymiau Japaneaidd cwmni Upbeat. Profiad anhygoel (a swnllyd!) i bawb. Ar y 23ain o Dachwedd perfformiodd côr yr ysgol ym Mhontyclun i ddathlu cynnau'r goleuadau Nadolig. Hefyd, cynhyrchodd aelodau'r pwyllgor Dinasyddion Doeth dinsel ar gyfer y goeden gan ddefnyddio bagiau plastig clir er mwyn atgoffa pawb i ailgylchu neu ailddefnyddio.

Yn olaf, aeth nifer o ddisgyblion ar ymweliadau y mis hwn. Mwynheuodd Blwyddyn 5 a 6 ymweliad â Stadiwm y Mileniwm fel rhan o'n dathliadau Cwpan Rygbi'r Byd cyn mynd at daith cwch o gwmpas y Bae. Cafodd disgyblion Blynyddoedd 1, 2 a 3 hwyl a sbri yn Techniquest ac aeth Blwyddyn 4 i'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):
Mis Rhagfyr 2019:
1 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion (am 5:00 p.m.)
8 – Oedfa i'w threfnu (am 5:00 p.m.)
15 – Oedfa Nadolig yng Nghartref yr Henoed (11:00 a.m.)
- Oedfa 9 Llith a Charol yng nghwmni Côr CF1 (am 5:00 p.m.)
22 – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
29 – Oedfa dan ofal Wynford Ellis Owen
Mis Ionawr 2020:
5 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12 – Oedfa dan ofal Dr Neville Evans Plygain (am 4:30 p.m.)
19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
26 – Oedfa dan ofal y Parchedig Owain Llyr Evans

ooooOOOOoooo

Dim ond un lle sydd i fod ar fore'r Nadolig – Bethlehem.

Ia, ar bob cyfrif dewch i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, erbyn 10 o'r gloch y bore i fwynhau orig fer o foliant, cyn agor yr anrhegion a chladdu'r twrci a'r trimins dros ginio.

Ond Bethlehem Jiwdea sydd gen i mewn golwg – y dref fechan honno ar gyrion yr anialwch sydd yn ganolog i stori'r Nadolig fel y cofnodwyd yn ein Beibl ni.

Fel llawer eraill ohonoch dwi'n siwr, wedi dychwelyd o wyliau yn rhywle, fe fyddaf yn hoff o ddarllen mwy am yr ardal arbennig honno y bum yn ei throedio. Cael cyffro wrth ail-fyw rhai o'r profiadau yn y llefydd cyfarwydd, a siomi na fum yn ddigon ffodus i ddarganfod rhyw lecyn neu weld rhyw grair sy'n ennyn sylw'r awduron a'r sylwebyddion.

A dyna'r patrwm wedi dychwelyd o'r daith eleni i Israel a Phalesteina, a darganfod ar silffoedd un o'r myrdd siopau llyfrau yn y Gelli Gandryll lyfr gyda'r teitl "*Bethlehem – Biography of a Town*", (cyhoeddwyd gyntaf yn 2017). gan awdur o'r enw Nicholas Blincoe, sy'n briod a gwraig o dref Bethlehem.

Fel "cofiant" mae'r gyfrol yn naturiol yn ein tywys o gyfnod sefydlu'r dref hyd at y cyfnod diweddar yma, gan dynnu ar brofiad yr awdur o ymweld ac yn hwyrach fyw yma gyda'i deulu yng nghanol yr helbulon.

Mae'r Rhagair i'r gyfrol yn son am ei ymweliad cyntaf â theulu ei wraig yn ystod Nadolig 1994, gan gyflwyno, yn addas yn ei dyb ef, ar yr Ŵyl ac ym Methlehem o bob man, bwdin Nadolig, i'w ddarpar deulu-yng-nghyfraith.

Syndod o'r mwyaf iddo oedd darganfod nad oedd y teulu erioed wedi gweld na phrofi pwdin Nadolig o'r blaen.

Mewn ymdrech i egluro beth oedd y pwdin dechreuodd ddarllen y rhestr cynhwysion iddynt, ond chwarddodd y tad o glywed, gan egluro bod bron pob un cynhwysyn yn tyfu yn ei ardd, a'r gweddill yn cael eu cludo ar gefn camelod, ar draws yr anialwch, i'r dref, gan farsiandawyr Arabaidd, yn union fel yr aur, thus a myrr yn stori'r Geni.

Cred mai'r cyfuniad yma o ddiwylliannau - y ffarmwr a'r crwydryn – a greodd Bethlehem yn y lle cyntaf, a'r dref yn ei thro wedyn yn dod yn ddylanwadol ar hanes ein byd ni.

'Roedd y tir ffrwythlon a'r dŵr sydd wedi ei gasglu yn y creigiau calchfaen islaw yn gwneud Bethlehem yn fan delfrydol i'r crwydriaid gwreiddiol i setlo ynddo, i blannu coed a thyfu gwair yn borthiant i'w hanifeiliaid. Dilynodd y masnachu gan greu llwybrau i gyrchu'r cynnyrch i farchnadoedd ar lan yr afon Nil.

Cynhwysion y pwdin Nadolig wedyn yn cyrraedd ceginau'r cogyddion yn Ewrop fesul dipyn, o'r oesoedd cynharaf, trwy gyfnod y Rhufeiniaid a'r Moslemiaid, trwy oes y Croesgadwyr a'r Ottomaniaid, a'r toes yn ei dro yn adlewyrchu'r fasnach rhwng Dwyrain a Gorllewin, a'r berthynas rhwng gwledydd Ewrop a'r Wlad Sanctaidd.

'Rydym ni wedi trwytho i ddysgu mai "*Tŷ'r Bara*" ydi ystyr Bethlehem [*Beit Lechem* yn iaith Canaan], ond yn yr iaith Arabeg fe'i cyfieithir fel "*Tŷ'r Cig*" [*Beit Lahm*]. (Yna yn yr iaith Aramaeg gall olygu "Tŷ'r Oen" [*Beit Lamra*].)

Pa un bynnag sydd yn gywir, yn ol yr awdur mae unrhyw amryfusedd rhwng "Ty'r Bara" a "Ty'r Cig" yn cael ei unioni yn y pwdin Nadolig traddodiadol, a'r blawd a siwet, wrth goginio, yn asio'n un.

"*Talp o hanes; hanes mewn pwdin*" medd y cofiant.

"*Awn i Fethlehem*" felly "*bawb dan ganu*" ar fore'r Nadolig, a blas y pwdin arbennig hwnnw ar ein gwefusau ac yn ein calonnau.

Mwynhewch yr Ŵyl – Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr Tafod Elái oddiwrth gynulleidfa Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 21ain o Hydref 2019 cawsom ni sgwrs ddiddorol iawn ar 'Byw gyda Ansicrwydd - Y Celf a'r Grefft o fod yn Feddyg Teulu gan Zoë Williams sy'n byw yng Nghaerdydd ac mae ei phractis ym Mhontypridd. Cafodd ei haddysg ysgol yn Aberystwyth cyn mynd i Lundain i wneud gradd meddygol a arweiniodd at flynyddoedd sylfaen yn ardal Caerdydd. Cawsom ddisgrifiad o ddiwrnod meddyg teulu fel cyfres o apwyntiadau 10 munud lle mae'n rhaid cwblhau nifer o dasgau fel asesu'r claf, trefnu profion, ysgrifennu llythyrau cyn symud ymlaen i'r apwyntiad nesaf. Dywedodd Zoë bod sôn am wneud yr apwyntiadau yn 15 munud, bydd hyn yn llesol i'r doctoriaid, ond bydd angen mwy o ddoctoriaid i weld yr un nifer o gleifion.

Esboniodd Zoë bod pob dydd yn wahanol, roedd pob apwyntiad yn wahanol a bod amrywiaeth y swydd yn rhoi boddhad mawr iddi. Ond mae angen mwy o feddygon fel Zoë, gan bod nifer fach o feddygon yn gofalu am ardaloedd mawr, neu boblogaeth fawr yn arbennig dros nos. Yn 2016 roedd 6.5 o feddygon teulu i bob 10,000 o bobl yng Nghymru, mae nifer y meddygon wedi cynyddu ers hynny ond mae nifer y practisiau wedi lleihau. Mae mwy a mwy o feddygon yn gweithio rhan amser nawr, ac mae bron hanner ein meddygon teulu yn fenywod erbyn hyn.

Roedd llawer ohonom heb sylweddoli bod rhedeg meddygfa fel rhedeg cwmni bach gan bod rhaid talu morgais a chynnal a chadw'r adeilad yn ogystal â chyflogi staff nyrsio, ysgrifenyddion, fferyllwyr ac yn y blaen. I orffen cafodd y gynulleidfa gyfle i ofyn cwestiynau i Zoë ar unrhyw agwedd o waith meddyg teulu, ac roedd yn dda i weld nifer o ddisgyblion ysgol yn dod i'r cyfarfod ac yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Roedd y parch sylweddol oedd gennym at feddygon teulu wedi cynyddu yn rhyfeddol ar ôl clywed darlith a thrafodaeth Zoë.

Nos Lun 18fed Tachwedd 2019 cawsom ni ddarlith ddiddorol iawn ar 'Gwyddoniaeth Data ac Ystadegaeth Meddygol'gan Hywel M. Jones sy'n ystadegydd proffesiynol. Mae Hywel wedi cael nifer o swyddi ystadegol gan gynnwys ystadegydd Bwrdd yr Iaith a fe sy'n gofalu ar ôl y safle we http://statiaith.com sy'n drysorfa o ystadegau am yr Iaith Gymraeg.

I ddechrau aeth Hywel â ni ar daith i fyd y gwyddonydd data, gan son am nifer o feysydd cysylltiedig. Soniodd am 'data mawr' lle mae rhaid defnyddio technegau arbenigol i storio a phrosesu casgliadau anferth o ddata. Cawsom gyflwyniad byr i ddysgu peirianyddol, lle rydym yn hyfforddi cyfrifiadur i wneud penderfyniadau ar ôl gweithio ar set o 'ddata hyfforddi'. Mae y maes yma, 'machine learning' yn Saesneg, yn un sy'n tyfu'n gyflym ar hyn o bryd.

Yna soniodd Hywel am 'saernïo data' – mae cynllunio call ynglyn a chasglu a storio data yn gallu arbed amser nes ymlaen. Nododd bod 95% o amser ystadegydd yn cael ei wario ar drawsnewid y data i ffurf addas i weithio arno, a bod y cam diwethaf o greu y graffiau neu luniau yn gymharol gyflym.

I orffen, soniodd Hywel am rai pethau bydd yn digwydd yn y dyfodol, er enghraifft mae prosiect i annog meddygon i ddefnyddio termau wedi eu safoni yn eu nodiadau. Yna mae modd casglu data o ffeiliau cyfrifiadur neu trwy sganio nodiadau - cyn belled bod y cyfrifiadur yn gallu ddarllen ysgrifen doctoriaid wth gwrs!

Rhys Morris

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Clwb y Bont
Llongyfarchiadau i Menna Lewis, Graigwen. Hi sy'n derbyn y wobr ddiweddara o £100 o'r Clwb 200.
Cofiwch am Barti Nadolig y Clwb nos Wener, Rhagfyr 20 fed o 7.30 ymlaen. Adloniant a bwffe.
Croeso cynnes i bawb. Aelodau am ddim, gwesteion £3

Merched y Wawr
Fe fydd y gangen yn croesawu Parti'r Efail nos Iau ,Rhagfyr 12fed am 7.30 yng Nghlwb y Bont. Dewch i fwynhau noson Nadoligaidd - a mins peis! Croeso cynnes i bawb. Mynediad £3 wrth y drws
Ymweliad â'r Plygain ym Mhentyrch fydd digwyddiad mis Ionawr i'r aelodau - nos Iau, Ionawr 9 fed.

Clwb llyfre
Cyfrol Gymraeg sy dan sylw mis yma sef Treheli gan Mared Lewis. Fe fydd y grŵp yn cwrdd am 7.30 yng Nghlwb y Bont nos Fawrth 17eg.
Nofel gan yr awdures o Ganada Margaret Attwood sy n cael ei thrafod ym mis Ionawr sef Alias Grace. Dewch i'r Clwb nos Fawrth, Ionawr 14eg am 7.30

Balchder Graigwen
Cafodd grwpis Huw Blainey ddiwrnod wrth eu bodd ym mis Tachwedd wrth ei wylio yn actio yn Warhorse yn Theatr Troubadour, Wembley. Mae cynhyrchiad y National Theatre wedi symud i Baris mis yma.



Capeli Cymraeg Caerdydd a'r Cylch

Bydd criw o bobl yn dod ynghyd i ganu carolau yng nghapel Salem, Treganna, am 3:30 o'r gloch brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 7fed. Mae'r digwyddiad wedi ei anelu at bobl â dementia, eu teuluoedd a'u cyfeillion, a bydd yn achlysur cartrefol a hwyliog yng nghwmni Siân Meinir, Delwyn Siôn a Beti George. Erbyn hyn mae tua deg côr yn ardal Caerdydd ar gyfer pobl sy'n dioddef o dementia, ond does dim un Cymraeg. Y gobaith yw defnyddio hyn fel man cychwyn i weld a oes cefnogaeth i gôr dementia Cymraeg, yn ddioddefwyr, gofalwyr a chyfeillion. Dewch draw i fwynhau'r canu a'r cymdeithasu.

Martin yn ennill Cadair Dyffryn Ogwen

Mae bardd o Ffynnon Taf, Martin Huws, wedi dod yn gynta ac yn ail yng nghystadleuaeth Cadair Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Y gofynion eleni oedd cerdd hir neu ddilyniant o gerddi ar y testun Clymau.

Dywedodd y beirniad, Llion Jones, fod naw wedi cystadlu, gan gynnwys telynegwyr, vers librwyr a chynganeddwyr, yn trafod clymau bro a gwlad, clymau henaint ac afiechyd a chlymau'r cof a'r meddwl. "Mae'n deg dweud hefyd fod yma ambell ymgeisydd wedi'i glymu wrth destun o eisteddfod arall ac wedi methu ag ymryddhau ohono," meddai.

"Yn y ras roeddwn i'n chwilio am stamina, cysondeb, cywirdeb a'r gallu i godi gêr pan fo galw am hynny. Cafwyd rhai o'r elfennau hyn gan sawl un o'r ymgeiswyr, ond roedd gan y bardd a ddaeth i'r brig fesur go dda o'r cyfan ohonynt."

Dywedodd fod cerdd hir **Lleidr Pen Ffordd** yn gyfanwaith crwn. Ynddi un o afiechydon creulon yr ymennydd, lleidr y co', sy'n hawlio'r llwyfan. Trwy gyfres o olygfeydd dirdynnol, mae dyn ifanc yn tywys ei dad o gwmpas y mannau hynny a fu'n rhan mor bwysig o'i fywyd er bod ei wyneb yn "farc cwestiwn". Mewn cerdd wedi ei gosod yn un o gymoedd y de, mae cyflwr y tad yn yn cael ei ddarlunio drwy ddelweddau ingol o addas. "Fel hyn y mae, yr offer weindo wedi rhwdu," meddai'r bardd, a'r "clo'n sownd ar y glwyd".
Yn ôl y beirniad, mae'r bardd yn deall ei gyfrwng, yn gwybod gwerth cynildeb, ac yn ymwybodol o bwysigrwydd y manylyn arwyddocaol. "Mae'n hyderus yn ei ddefnydd o'r cywair llafar ac mae'r defnydd o dafodiaith yn cynhesu'r dweud mewn ffordd chwerw-felys. Mae'n gwbl deilwng o gadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni."

Cafodd y seremoni ei chynnal yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Mae Martin yn ennill cadair a siec yn werth £75.

Dyma ran o'r gerdd, y mab yn siarad â'i dad:

- Mewn â ti, bydd yn garcus, stepen.
Dere i ga'l twymad.

Yn y caffi clyd y te'n felys
a Nia yn ein cyfarch ni â'i gwên radlon.
- Mr Richards, chi'n dishgwl fel y boi.

Paid delwi. Gan bwyll, gormodd ...
tr'eni, y twlpe siwgyr
yn toddi fel cello'dd ymennydd.

- Edrych, poster ar y wal, panto, Dic Tyrpin.
Pan o'n i'n ishte ar dy gôl
yn y Miwni yn Ponty o'n i'n gweiddi'n fuddugoliaethus
bob tro y llwyddai i stopo'r goetsh.

- Beth? Ti'n barod i fynd?
Dim amynedd erbyn hyn, o's e?

'Na olwg,
rhyw walch yn arllws y geme i gyd mewn i gwdyn
cyn i geffyl garlamu i'r düwch.

Ffarwelio â Pheiriant Enfawr

Sefydlwyd Cwmni South Wales Forgemasters yn Ffynnon Taf yn 1932 a bu'n gwmni llwyddiannus yn cynhyrchu cyd-rannau ceir. Roedd yn gweithio drwy gynhesu metalau mewn ffwrnesi ac yna eu taro i mewn i siapiau priodol ar gyfer y darnau ceir.

Ond wrth reswm roedd y gwaith yn swnllyd gyda rhai o'r gweisg yn taro'n gyson ac achosi sŵn nid yn unig yn y ffatri ond ar draws gwaelod cwm Taf gan effeithio ar bobl yn arbennig yn rhan isaf pentref Ffynnon Taf. Erbyn yr 1970'au roedd y sŵn yn gwaethygu a bu sawl ymgyrch i atal y ffatri rhag gweithio yn y nos. Penderfynodd Cyngor Taf Elái fod y sŵn yn mynd tu hwnt i'r hyn oedd yn dderbyniol yn ôl y deddfau diweddaraf a newidiwyd patrwm gwaith y Forgemasters.

Er fod nifer y swyddi wedi gostwng parhaodd y cwmni i weithio a daeth i ben yn gynharach eleni.

Ond wrth ddymchwel adeiladau'r Forgemaster daeth un o'r peiriannau oedd yn gyfrifol am y sŵn i'r golwg. Roedd yn beiriant 136 tunnell ac yn anodd dros ben i'w symud. Ac er fod popeth o'i amgylch wedi mynd bu'n hen beiriant ystyfnig iawn a chymerodd wythnosau lawer o fis Medi i mis Tachwedd i dorri, taro, llosgi a thynnu'r peiriant yn ddarnau.

Mae'n ddiddorol gweld hysbyseb y Forgemasters yn y 1950'au yn dangos y peiriant wrth ei waith.



Mae'r trefniadau at Eisteddfod Caerdydd yn mynd yn eu blaen yn dda, ond mae dal sbel i fynd nes cyrraedd 17 Ionawr 2020!

Cystadlaethau llenyddiaeth

Mae gyda ni 8 cystadleuaeth lenyddol i chi eleni, a'n beirniad yw Emyr Davies. Y dyddiad cau yw 6 Rhagfyr. Mae'r manylion cystadlu'n llawn ar www.eisteddfodcaerdydd.cymru

Cystadlaethau llwyfan

Mae hefyd modd i chi gofrestru nawr ar gyfer y cystadlaethau llwyfan. Mae'n rhaid i chi gofrestru er mwyn cystadlu ar y diwrnod, felly ewch i www.eisteddfodcaerdydd.cymru i lenwi'r ffurflen i gofrestru! Y dyddiad cau ar gyfer cystadlaethau llwyfan yw dydd Gwener 10 Ionawr 2020.

Nawdd

Yn olaf, ry'n ni'n dal i chwilio am nawdd i gynnal yr eisteddfod. Ry'n ni wedi dechrau o ddim byd, ac wedi llwyddo cael nawdd gan nifer o sefydliadau a chymdeithasau Caerdydd yn barod. Ond fel gyda phob digwyddiad fel hyn, mae'n rhaid cael cyllid er mwyn sicrhau llwyddiant. Felly os hoffech noddi'r eisteddfod yn gyffredinol, ry'n ni wedi creu tudalen Go Fund Me lle gallwch wneud cyfraniad yn hawdd gofundme.com/eisteddfod-caerdydd.

Mae sawl cystadleuaeth yn dal i fod heb eu noddi'n benodol, felly os hoffech chi noddi cystadleuaeth e-bostiwch cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

A chofiwch roi 17 Ionawr 2020 yn eich dyddiaduron – Eisteddfod Caerdydd yn Ysgol Plasmawr.

Cystadleuaeth Cynllunio Siwmper Nadolig i Dewin

Cynhelir Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant ar ddydd Gwener 13eg o Ragfyr eleni, a disgwylir y bydd miliynau o bobl yn cymryd rhan i godi arian i blant bregus ar draws y byd. Mae'r arian a godir yn ystod yr ymgyrch godi arian blynyddol hefyd yn cynorthwyo gwaith rhaglenni ar lawr gwlad yn y Deyrnas Unedig a Chymru, gan roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant yn y blynyddoedd cynnar. Mae cymryd rhan yn syml, drwy gofrestru ar *christmasjumperday.org* gwisgo siwmper Nadolig neu trwy addurno hen siwmper sydd gennych yn barod, a chyfrannu £1.

Yn ystod y cyfnod sy'n arwain at Ddiwrnod Siwmper Nadolig, bydd plant ac oedolion sy'n mynychu grwpiau Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin, yn cael eu hannog i drefnu stondinau prynu a gwerthu a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft Siwmper Nadolig.

Gofynnir i rieni, aelodau teulu, staff ac aelodau o'r gymuned i ddod â Siwmperi Nadolig ail law, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft i roi bywyd Nadoligaidd newydd i hen siwmperi, i'w gwerthu a'u gwisgo ar Ddiwrnod Siwmper Nadolig. Bydd yr arian a godir o werthiant y Siwmperi Nadolig yn mynd tuag at waith y Cylchoedd Meithrin, a bydd y rhodd o £1 ar Ddiwrnod Siwmper Nadolig ei hun yn mynd i Achub y Plant.

I gyd-fynd â'n partneriaeth gydag Achub y Plant, rydym yn lansio cystadleuaeth ar 25 Tachwedd – sef mis union cyn y Nadolig, i greu'r siwmper Nadolig orau i Dewin (maint XXXL) allan o hen siwmperi neu trwy ailgylchu unrhyw ddefnyddiau Nadoligaidd. Er mwyn cystadlu mae angen i'r cylchoedd anfon eu lluniau o'r siwmper Nadolig i Dewin dros ein cyfryngau cymdeithasol, Facebook, Twitter ac Instagram, at @mudiadmeithrin gan nodi #DoligDewin cyn dydd Iau y 5ed o Ragfyr. Bydd yr enillydd yn derbyn ymweliad gan Dewin ei hun i'r cylch ar ddydd Mercher yr 11eg o Ragfyr. Pob lwc a chofiwch fwynhau - #DiwrnodSiwmperNadolig!

Acapela

Dewch i ymuno gyda ni ar ddiwrnod Dewi Sant i gyngerdd bythgofiadwy gyda'r grŵp "Blodau Papur" a "Mei Gwynedd".

Blodau Papur yw llais arallfydol Alys Williams, wedi ei lapio gan sŵn band go adnabyddus - Osian Huw (Candelas/Siddi), Aled Huws (Cowbois Rhos Botwnnog/Plu/ Colorama), Dafydd Huws (Cowbois Rhos Botwnnog/Plu/Gwenno) a Branwen Haf (Cowbois Rhos Botwnnog/Siddi/ Candelas).

Roedd 2019 yn flwyddyn fawr i Blodau Papur wrth ryddhau eu halbwm gyntaf a mynd ar daith ledled Cymru. Wedi bron blwyddyn a hanner o gigio ledled Cymru, gan gynnwys chwarae yng Ngig y Pafiliwn gyda cherddorfa'r Welsh Pops yn Eisteddfod Genedlaethol 2017 a chwarae gyda cherddorfa'r BBC ddiwedd 2018, mae Blodau Papur wedi hen ennill eu plwyf.

Dyma fand all eich tywys ar daith eneidiol, o'r uchelfannau emosiynnol i droelli ar y llawr ddawns, mewn un set fythgofiadwy.

Tocynnau: acapela.co.uk

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Chwefror
i gyrraedd erbyn
24 Ionawr 2020

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Canu Plygain
7.00yh Eglwys Pentyrch
8.30yh Y Fari Lwyd yn y King's Arms

Nos Iau, Ionawr 9fed

Manylion: 02920890040

CYLCH CADWGAN

Nos Wener
31 Ionawr am 8.00yh

Don Llewellyn -
yn siarad ar y testun:
'Straeon Cymeriadau Ardal y Garth'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf
Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

'Symud'
gyda Jan Erskine

8.00yh Nos Fercher,
Ionawr15eg
Yn Y Ganolfan, Efail Isaf

Croeso cynnes i bawb!

Y We yn Gymraeg

https://www.bbc.com/cymru
https://pedwargwynt.cymru/
https://glynadda.wordpress.com/
https://golwg360.cymru/
http://www.gwerddon.cymru/
http://www.casglwr.org/
https://barn.cymru/
https://parallel.cymru/
https://mamcymru.wales/cy/
http://cristnogaeth21.cymru/
http://gwefan.org/
https://seneddymchwil.blog/

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Rhagfyr 18fed
Haf Weighton
artist tecstilau,
'Paent, print a pwythau'
Rhagor o fanylion:
01443 223828

MERCHED Y WAWR
Pontypridd

Parti'r Efail

Nos Iau, Rhagfyr 12ed
Yng Nghlwb y Bont.
Croeso I bawb
Rhagor o fanylion:
01443 485272

Cylch Llyfryddol Caerdydd

Gwener, 17 Ionawr 2020
'Myfyrio ar y Meddwl Cymraeg a Chymreig' yw pwnc yr athronydd, Dr Huw L. Williams, awdur y gyfrol Credoau'r Cymry.

Cynhelir y cyfarfod am 7.00 o'r gloch yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU.

Ysgol Creigiau

DATHLU 30 MLYNEDD O CCUHP
Ddydd Mercher, Tachwedd 20fed, daeth Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r ysgol i ddathlu 30 mlynedd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cafodd aelodau o Gyngor yr Ysgol gyfle i gyfarfod â Sally Holland a siarad gyda hi am y gwaith rydym yn gwneud yn yr ysgol ar Hawliau Plant. Cawsom wasanaeth arbennig a bu Sally Holland a Julie Morgan yn siarad gyda'r disgyblion am eu gwaith. I gloi'r ymweliad perfformiodd disgyblion Blwyddyn 3 gân newydd sbon 'Mae Gennym Hawliau'. Dyma berfformiad cyntaf o'r gân hon a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru. Disgyblion Blwyddyn 3 oedd wedi cyfansoddi'r gân gyda chymorth Sara Lewis a Dyfan Jones. Roedd ein hymwelwyr wedi trefnu bod y neuadd yn cael ei haddurno gyda baneri a balwnau glas a chawsom gacen enfawr i ddathlu'r achlysur arbennig hwn.

ECO-BWYLLGOR CENEDLAETHOL
Ddydd Iau, Tachwedd 21ain, aeth dau aelod o'n Pwyllgor Eco i Barc a Thŷ Bedwellty i fynychu Pwyllgor Eco Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Eco Platinwm. Cymerodd Carys ac Oscar ran mewn amrywiol weithdai yn ystod y dydd. Diolch yn fawr i Mrs Wilkins am fynd gyda'r disgyblion.

GWOBR ARIAN Y SIARTER IAITH
Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi ennill Gwobr Arian y Siarter Iaith. Diolch o galon i'r disgyblion, y staff, y rhieni a'r Llywodraethwyr am gefnogi'r Siarter Iaith a diolch arbennig i Miss L. Williams ac aelodau Cymry Cŵl Creigiau am arwain y prosiect yn yr ysgol.

CRIW HANFODOL
Yn ddiweddar mynychodd disgyblion Blwyddyn 6 weithdai Criw Hanfodol ym Mae Caerdydd. Dull aml-asiantaeth yw Criw

Hanfodol o drosglwyddo negeseuon diogelwch i ddisgyblion Blwyddyn 6 cyn iddynt symud ymlaen i addysg uwchradd.

SEREN A SBARC
Yn ddiweddar cawson ymwelwyr pwysig iawn yn ein gwasanaeth boreol. Daeth Seren a Sbarc, cymeriadau swyddogol y Siarter Iaith, i ymweld â ni ac i'n llongyfarch ar ein gwaith caled yn gweithio tuag at Wobr Arian y Siarter Iaith (yr Adran Gymraeg) a Gwobr Efydd Cymraeg Campus (yr Adran Saesneg). Diolch i'r arweinwyr Cymraeg am gyflwyno yn y gwasanaeth - gwaith gwych!

JAMBORI'R URDD
Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yr Adran Gymraeg amser gwych fore Mercher,

Tachwedd 6ed, yn Jambori'r Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm. Fe ddawnsiodd a chanodd pawb drwy'r bore. Heb os nac oni bai cafwyd bore hwyliog a swnllyd iawn!

CYSTADLEUAETH SGÏO GEMAU CAERDYDD
Cynrychiolodd naw disgybl yr ysgol yng Nghystadleuaeth Sgïo Gemau Caerdydd yng Nghanolfan Sgïo Tyllgoed yn ddiweddar. Roeddynt wedi sgïo'n rhagorol ac ar ddiwedd bore blinedig iawn cyhoeddwyd yr enillwyr. Enillodd Lily (Dosb 5) y ras i ferched a daeth

Efa (Dosb 6) yn drydydd, enillodd James (Class 5) y ras i fechgyn a daeth Harry (Class 5) yn ail. Da iawn Elinor, Efa, Ceian, Lily, Olaf, Harry, James, Iolo ac Oscar - roeddech i gyd yn ardderchog.

LOWRI MORGAN
Ymwelodd Lowri Morgan, cyflwynwraig deledu a rhedwraig marathon, i siarad

gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Mwynheuodd pawb wrando ar ei chyflwyniadau ysbrydoledig - diolch Lowri.

PUMAWD PRES FLORA
Yn ddiweddar daeth Pumawd Pres Flora i'r ysgol i berfformio i'r disgyblion. Mae'r pum aelod yn astudio yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Roedd pawb wedi mwynhau eu perfformiad yn fawr.

EIRA WEN
Fore Mercher, Tachwedd 13eg, cafodd yr holl ddisgyblion o'r Derbyn i Flwyddyn 6 amser gwych yn gwylio 'Eira Wen', cynhyrchiad gan Gwmni Theatr M & M, yn neuadd yr ysgol.

BLWYDDYN 6 YN YMWELD Â SAIN FFAGAN A 'BIG PIT'
Fel rhan o'u gwaith thema mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod ar wibdaith i Sain Ffagan ac i Amgueddfa Lofaol Cymru 'Big Pit' i ddysgu mwy am fywyd yn ystod Oes Fictoria. Roedden nhw wedi mwynhau'r profiadau'n fawr.

FFAIR NADOLIG
Roedd ein Ffair Nadolig brynhawn Iau, Tachwedd 21ain, yn llwyddiant mawr. Canodd côr yr ysgol gyfres o ganeuon Nadoligaidd i agor y Ffair. Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r digwyddiad a diolch i'n teuluoedd am gefnogi.

PLANT MEWN ANGEN
Ddydd Gwener, Tachwedd 15fed, buom yn dathlu 'Plant mewn Angen' yn yr ysgol. Gwisgodd y disgyblion mewn gwisg ymarfer corff a buon nhw'n cadw'n heini gyda Joe Wicks ar iard yr ysgol! Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Codwyd £454.94 - gwych!

Ysgol Dolau

Nadolig Llawen
Mae'r Nadolig wedi dod yn gynnar i Ysgol Dolau trwy fenter gan Dreigiau Dolau a'r Criw Cymraeg. Maent wedi bod yn brysur yn cynnal cystadleuaeth cardiau Nadolig ac mae'r cardiau buddugol nawr ar werth! Mae'r disgyblion wedi bod tu allan yn gwerthu'r cardiau i rieni ac athrawon am £2 (pecyn o bedwar). Mae'r casgliad yn cynnwys wyth cynllun gwahanol a ddyfarnwyd gan Dreigiau Dolau a'r Criw Cymraeg (gyda chymorth rhai o'r athrawon) ac maent yn gwerthu'n dda iawn. Dewch i'r ysgol i brynu pecyn yn fuan os nad ydych am gael eich siomi!

Plant Mewn Angen
Ddydd Gwener, 15fed o Dachwedd, dathlodd plant Dolau diwrnod Plant Mewn Angen drwy wisgo dillad eu hunain a chael hwyl Pydsi. Roedd llawer o smotiau a hyd yn oed athrawon wedi gwisgo fel Pydsi. Roedd yn wych i weld disgyblion yn dod â chyfraniadau i roi tuag at helpu pobl mewn angen a chafodd pawb ddiwrnod gwych. Mae'n rhaid enwi'r Cyngor Ysgol am ei waith yn rhedeg cystadleuaeth 'Enwi'r Arth' a lwyddodd i godi llawer o arian ychwanegol.

Techniquest
Roedd mwy o hwyl a hud a lledrith ar gyfer disgyblion yr ysgol ddydd Llun, 18fed o Dachwedd, wrth i'r disgyblion fwynhau sioe ar y thema 'Charlie and the Chocolate Factory'. Roedd y sioe yn llawn gwyddoniaeth gwych, gwyllt a godidog. Roedd thema Roald Dahl i weld yn dal y cyflwyniad at ei gilydd a mwynheuodd y dsgyblion weld pethau'n arnofio, saethu a darganfod! Roedd hi'n sioe cofiadwy iawn a hoffai'r disgyblion estyn ddiolch i'r tîm am ei cyflwyniad llawn egni.

Hwyl Fawr Babs
Mae'r Parchedig Babs wedi bod yn weithgar o fewn cymuned Llanharan am tua ugain mlynedd bellach. Mae'r parch tuag ati yn amlwg i weld ac mae ei gwaith gyda'r eglwys dros y blynyddoedd wedi bod yn amlwg iawn o fewn y gymuned. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddi hi yn benodol am ei gwaith gyda phlant ein hysgol gan ei bod wedi ysbrydoli cannoedd o ddisgyblion dros y blynyddoedd. Llwyddiant mawr diweddaraf Parchedig Babs yw cynllun o'r enw 'Open The Book', sy'n helpu plant a phobl ifanc i agor eu llygaid a'u clustiau i hen, hen straeon y beibl. Hoffem ddymuno ymddeoliad hapus ac ymlaciedig iddi hi a gobeithiwn ei gweld yn achlysurol yn yr ysgol i gadw mewn cysylltiad.

Ysgol Tonyrefail

Recordio
Cafodd disgyblion yr Adran Iau ddiwrnod i'w gofio yn ddiweddar yn recordio cân gyda neb llai na Mei Gwynedd. I Gwynfor Dafydd, sydd yn gyn-ddisgybl, a Blwyddyn 6 am eu syniadau y mae'r diolch am lunio'r geiriau ar y thema y chwyldro diwydiannol ac i Mei am y gerddoriaeth. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu boddau yn recordio'r gân. Diolch iddo hefyd am roi cyfle i ddisgyblion ddysgu am, a helpu gyda'r broses o recordio'r gân. Mae'r gwaith hyn yn rhan o brosiect celfyddydau mynegiannol ar y cyd a chwmni 'Mewn Cymeriad' a Chyngor y Celfyddydau.

Ffair Nadolig
Diolch i'r Gymdeithas Rieni a Ffrindiau am drefnu ffair Nadolig unwaith eto eleni ac i bawb ddaeth i gefnogi. Roedd pob dosbarth wedi bod wrthi yn brysur iawn yn ystod ein hwythnos mentergarwch i greu nwyddau Nadoligaidd eu naws i'w gwerthu yn y ffair. Bydd pob dosbarth yn penderfynu sut y maent eisiau gwario'r elw a wnaed. Llongyfarchiadau iddynt ar safon y cynnyrch - gwaith ardderchog gan bawb!

Cynnyrch Cymraeg yn y Ffair Nadolig

Stondin Blwyddyn 3 a 4

Bl 1 a 2 yn gwerthu addurniadau

Y Criw Cymraeg
Mae aelodau newydd wedi ymuno â'r Criw Cymraeg ac maent wrthi yn barod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn gobeithio ennill Gwobr Arian y Siarter Iaith yn fuan.

Plant Mewn Angen
Talodd pob disgybl £1 i beidio â gwisgo eu gwisg ysgol ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd £210 i'r elusen. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Y Dosbarth Meithrin

Parhad >

Ysgol Tonyrefail (parhad)

Wythnos Gwrth Fwlio
Bu pob dosbarth drwy'r ysgol yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau i nodi Wythnos Gwrth Fwlio. Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu gwasanaeth gwrth fwlian i'r disgyblion. Roedd yn ddiddorol iawn.

Diogelwch y Ffordd
Dros yr wythnosau diwethaf mae disgyblion Blwyddyn 2 wedi bod yn dysgu am sut i gadw'n saff wrth groesi'r

ffordd. Diolch yn fawr i dîm Diogelwch y Ffordd - Rhondda Cynon Taf am eu gwasanaeth.

Gala Nofio'r Urdd
Bu 3 o ferched Blwyddyn 6 yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iddynt am gynrychioli'r ysgol.

Sul y Cofio
Diolch i ddisgyblion o flwyddyn 6 am gynrychioli'r ysgol yng ngwasanaeth Sul y Cofio drwy osod torch o babi coch ar y gofeb ym Mynwent Trân.

Blwyddyn 6 ar Sul y Cofio

Ysgol Pont-Sion-Norton

Sioeau
Aeth y plant Derbyn i weld Sioe Nadolig Cyw ym mis Tachwedd ac aeth blwyddyn 1 a 2 i weld 'Yr Hwyaden Fach Hyll' gan Theatr Sherman. Cafodd pawb amser gwych!

Adar y nos
Diolch i Jamie am gyflwyno Huw y Gwdihw a Twiglet o The Welsh Hawking Centre i blant y dosbarth Meithrin a Derbyn. Roedd y plant wrth eu boddau!

Clwb TGCh
Diolch i @angegerrard am ddod i gynnal clwb TGCh yn yr Ysgol. Roedd pawb wrth eu boddau gyda'r ffrwythau, llysiau a'r robotiaid brwsys dannedd!!



Castell Caerdydd
Fel rhan o'u thema, aeth dosbarth Y Gamlas i ymweld â Chastell Caerdydd. Gwelodd pawb ryfeddodau'r castell a dysgu llawer am yr hanes.

Pori Drwy Stori
Diolch i'r holl rieni a ddaeth i glywed plant y dosbarth Derbyn yn canu ar ôl llwyddo i gwblhau Her Rigymu Pori Drwy Stori- arbennig!

Chwaraeon
Llongyfarchiadau i dîm traws-gwlad merched blwyddyn 5, bechgyn blwyddyn 5 a merched blwyddyn 6 am gyrraedd y rownd derfynol yng Nghaerdydd. Daeth Lewis Kinsey yn 1af a Gethin Evans yn 2il!!

Mae'r tîm pêl-rwyd wedi bod yn brysur gyda chystadleuaeth yr Urdd a chystadleuaeth y Sir yn ddiweddar. Da iawn i bob un ohonoch chi!

Bu criw o nofwyr yr Adran Iau yn cystadlu yn y gala Urdd yn Ynysawdre. Pob lwc i Olly wrth fynd ymlaen i'r rownd Genedlaethol ym mis Ionawr.

Ysgol Garth Olwg

Siarad Cyhoeddus y Rotari
Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus yr ysgol sef Huw Griffiths, Efan Fairclough a Gruff Roberts o Flwyddyn 12 a lwyddodd i gipio'r 2il wobr yn rownd derfynol y Rotari! Cafodd Gruff 2il fel gwrthwynebydd a daeth Efan yn 3ydd fel Cadeirydd. Nododd y beirniad ei fod yn hyfryd gweld tîm o fechgyn. Da iawn chi!

Cynhadledd Geneteg a Techniquest
Croesawon ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio Bioleg a Gwyddorau Meddygol o ysgolion yr ardal i Garth Olwg ar yr 22ain o Dachwedd i fynychu Cynhadledd Geneteg. Braf oedd gweld holl ddisgyblion Rhydywaun, Plasmawr, Llangynwyd, Bro Edern a Chwm Rhondda gyda'i gilydd yn gwrando ar ddwy ddarlith ddiddorol iawn. Diolch i Dr Alwena Morgan a Dr Zoe Hudson am eu hamser.

Aeth Blwyddyn 13 Bioleg i labordai Techniquest ar y 14eg o Dachwedd er mwyn echdynnu eu DNA i wirio os oedd eu ffenoteip yn cyd-fynd gyda'u genoteip. Roedd yn gyfle gwych i wella eu sgiliau ymarferol ac wrth gwrs amser i chwarae yng ngweddill yr amgueddfa.

Taith Sain Ffagan
Fel rhan o baratoadau'r ysgol ar gyfer newidiadau cwricwlwm, dathlwyd pythefnos Dyfodol Llwyddiannus trwy ymweld â Sain Ffagan. Aeth Blwyddyn 7 ar ymweliad i amgueddfa awyr agored er mwyn datblygu dealltwriaeth o newidiadau yn yr ardal leol ac effaith y Chwyldro Diwydiannol. Fel rhan o'r prosiect, bu ffocws mawr ar waith grŵp a datblygu sgiliau aml gyfrwng wrth iddynt greu flogs a chymryd lluniau i'w cynorthwyo yn eu cyflwyniadau ar ddiwedd y pythefnos. Cafodd y disgyblion gyfle i ymweld â thai Rhyd y Car, asesu'r gwahaniaeth rhwng yr Eglwys â Chapel, a newidiadau ym mhatrymau siopa. Bu rhai yn ffodus iawn i weld arddangosfa fyw o'r gwaith traddodiadol gyda'r gwaith haearn. Roedd hyn yn sail greadigol i ddisgyblion Blwyddyn 7 i ddatblygu eu prosiectau grŵp i ddangos datblygiad ein byd bendigedig.

Bin it
Roedd disgyblion Blwyddyn 7 wedi cael modd i fyw yn gwylio sioe Binit ac yn dysgu am bwysigrwydd gwarchod ein hamgylchedd. Roedd y sioe yn wych!

Sioe Cip
Daeth Cwmni'r Urdd i'r ysgol i berfformio sioe i ddisgyblion

blynyddoedd 1-4. Roedd y plant wedi mwynhau'n fawr iawn.

Llwyddiant i'r disgyblion
Llongyfarchiadau i Jake a James am ennill Tystysgrifau Arian cyntaf yr Ysgol Isaf am 50 o bwyntiau Class Charts.



Llongyfarchiadau i Anwen Davies, Blwyddyn 12 sydd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Addysg y DU am ei chanlyniadau TGAU a'i gwaith allgyrsiol.

Ymweliad â Cartref
Aeth disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i berfformio i gynulleidfa hapus iawn yn y Cartref.

Gala Nofio Rhanbarthol yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r canlynol yng ngala nofio rhanbarthol yr Urdd:
Samson Dossett, Blwyddyn 6 – 1af Ras Pili Pala a Chymysg Unigol. Aled Evans, Blwyddyn 8 – 1af Broga. Owen Leach, Blwyddyn 11 – 1af Pili Pala. Ras Gyfnewid Rydd Bechgyn Blwyddyn 11 + - 1af. Ras Gyfnewid Amrywiol Bechgyn Blwyddyn 11 + - 1af. Gwen Salmon, Blwyddyn 7 – 2il Broga. Evan Leach, Blwyddyn 8 – 2il Broga a Chefn. Ras gyfnewid Rydd Cymysg, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il. Ras gyfnewid Rydd Bechgyn, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il. Caitlyn Vincent – Blwyddyn 8 -2il Pili Pala. Ras gyfnewid Amrywiol Bechgyn, Blwyddyn 7 ac 8 – 2il. Llyr Robins, Blwyddyn 7 – 3ydd Cefn. Carwyn Salmon, Blwyddyn 11 – 3ydd Rhydd. Aled Evans, Blwyddyn 8 – 3ydd Rhydd. Rhys James, Blwyddyn 5 – 3ydd Dewis Rhydd. Begw Williams, Blwyddyn 6 – 3ydd Broga
Da iawn i bawb a gymerodd ran.

Parhad ar dudalen 16 >

Ysgol Llanhari

Wythnos Gymreictod

Mae'n hymgyrch ni i wella defnydd cymdeithasol ein disgyblion o'r Gymraeg yn parhau wrth inni ddynodi wythnos olaf mis Tachwedd fel wythnos dathlu'n Cymreictod. Diolch i Miss Beca Creamer a Mr Gareth Lewis, cydlynwyr y siarter iaith yn yr adran uwchradd am drefnu llu o weithgareddau ar gyfer yr wythnos.

Catrin Heledd, Adran Chwaraeon S4C

Hyfryd oedd croesawu siaradwyr gwadd amrywiol i'r ysgol oedd yn cyflwyno gwahanol agweddau ar Gymreictod ac fe ddathlwyd diwedd yr wythnos gyda gig Cymraeg gyda'r grwp Mellt wedi ei drefnu gan Jordan o'r Urdd.

Ameer Davies-Rana yn cyflwyno ei stori

Ymweliad â Panto 'Yr Arwyr'

Cwrs Safon Uwch Cymraeg yng Nglanllyn

Troi trwyn y bws mini i gyfeiriad y Gogledd wnaeth Miss Catrin Rowlands a chriw Cymraeg blwyddyn 12 ar ddechrau mis Tachwedd. Mae criw brwd yn astudio'r Gymraeg ym mlwyddyn 12 eleni ac fe ddysgwyd llawer wrth wrando ar ddarlithwyr o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor yn trafod agweddau ar faes llafur Safon Uwch yn ogystal â mwynhau'r cyfle i ymweld ag ardaloedd llenyddol nodedig. Bu'n gyfle gwych hefyd i gymdeithasu â chyd-ddisgyblion o adranau Cymraeg eraill ar draws Cymru.

Plant mewn Angen 2019

Mae'r disgyblion wrth eu bodd bob blwyddyn yn cefnogi diwrnod Plant Mewn Angen. Mae'n esgus gwych i wisgo i fyny a mwynhau gweithgareddau. Diolch i ddisgyblion y chweched dosbarth am drefnu ac arwain y gweithgareddau eleni eto ac fe lwyddwyd i godi dros £600 at yr achos teilwng hwn.

Hawl i holi

Braf oedd clywed syniadau Mr Colin Pari a rhai o fechgyn blwyddyn 12 mewn rhifyn o Hawl i Holi a ddarlledwyd o Ton Pentre yn ddiweddar. Tybed a fydd y bechgyn wedi eu hysbrydoli nawr i ddarlledu eu syniadau ar Radio Llanhari yn ogystal â chynnig yr arlwy arferol o gerddoriaeth Gymraeg bob amser cinio?

Yr Hawl i fod yn Hapus

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn astudio'r thema yr Hawl i fod yn Hapus yn ystod y tymor hwn. Mae'r thema yn rhan o'n datblygiad cwricwlwm i flynyddoedd 5 i 8 ac mae'r disgyblion wedi bod wrth eu bodd yn trafod a dysgu gwahanol agweddau ar y thema. Penllanw'r gwaith oedd treulio diwrnod yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant yn mwynhau amrywiol weithgareddau ac felly yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng corff iach a meddwl iach.

Llwyddiannau Chwaraeon Ysgol Garth Olwg (parhad)

Llongyfarchiadau i Paige Ward a Lauren Payne ar gael eu dewis i chwarae i dîm pêl-droed dan 13 Ysgolion Cymru. Da iawn chi ferched, mae'r gwaith caled yn talu ffordd!

Llongyfarchiadau i Darcy Cromwell a gystadlodd ddiwedd y mis ym Mhencampwriaeth Dawns Brydeinig o dan 21. Daeth Darcy yn 2ail a hithau ond yn 16 oed. Da iawn ti!

Llongyfarchiadau i Rhys Green am ddod yn 3ydd yng Nghwpan Dreigiau Gwibgartio - Da iawn Rhys!

Llongyfarchiadau i dîm rygbi cyntaf yr ysgol ar gyrraedd rownd derfynol cwpan y gynghrair. Colli bu ei hanes yn y gêm derfynol i Fryn Celynnog ond roedd y tîm wedi chwarae'n wych.

Nofel i Blant, Pobl Ifanc a rhai hŷn.



Mae llawer o'r lleoliadau yn y nofel newydd 'Ifor Bach' gan Eurig Salisbury yn gyfarwydd i bobl yr ardal hon.

Mae'n nofel gyffrous am Ifor ap Meurig a fu yn Arglwydd Senghennydd yn y 12fed ganrif.

Bu gaeaf 1158 yn arw ym mhob ystyr. A'r eira'n drwch, mae'r gwalch glas yn chwilio am fwyd, ac mae dyfodol llys Gelli-gaer yn beryglus o fregus. A fydd Ifor yn llwyddo i amddiffyn ei gastell, ei bobl a'i deulu rhag y gelyn? A phwy yn union yw'r gelyn? Nofel am frad, am fygythiad ac am gwlwm teulu, sy'n ein hatgoffa bod y gwir i'w ganfod, yn aml, yn y mannau mwyaf annisgwyl.
Gwasg Gomer: £8.99

Tintin benben â gormes y gelyn



Yn y siopau nawr mae antur ddiweddaraf Tintin yn Gymraeg, *Braint y Brenin Ottokar*, lle mae'r gohebydd pengoch yn wynebu cynllwyn enbyd i ddisodli brenin ifanc teyrnas fechan Syldafia.

Mae gelynion y brenin Muskar XII yn bwriadu dwyn symbol ei fraint i deyrnasu, sef teyrnwialen hynafol Ottokar Fawr. O lwyddo, bydd y cynllwyn yn gweld y brenin yn colli ei orsedd — felly tybed a all Tintin achub y dydd cyn ei bod hi'n rhy hwyr?

Mae *Braint y Brenin Ottokar* yn ymuno ag 16 o anturiaethau eraill Tintin yn Gymraeg ers cychwyn y gyfres yn 2008, gyda Dafydd Jones wrth y llyw yn rhoi llais Cymreig i'r llanc sydd wedi ennill calonnau darllenwyr mewn 115 o ieithoedd ar draws y byd. Meddai Dafydd am *Braint y Brenin Ottokar*, "Dyma i chi stori sy'n ein cymryd ni o brynhawn tawel yn mynd â'r ci am dro y parc, i ddianc rhag milwyr byddin ormesol yn uchel ym mynyddoedd canolbarth Ewrop. Mae 'na fywyd gwâr, mae 'na fywyd treisgar, mae 'na fywyd gwerinol, ac mae 'na fywyd brenhinol, a'r cyfan wedi ei blethu â hiwmor mewn antur fyrlymus a fewn cwta 62 o dudalennau."

Hergé yw awdur cyfres Tintin, a chyhoeddwyd *Braint y Brenin Ottokar* ganddo yn wreiddiol yng ngwlad Belg yn 1939, pan oedd grym y Natsïaid ar gynydd ar draws Ewrop. Mae'r stori'n adlewyrchu tensiwn y cyfnod, lle mae'r brenin Muskar — a'i deyrnas Syldafia, sy'n wlad heddychlon, foesgar — yn wynebu bygythiad milwrol treisgar eu cymdogion yn Bordwria.

Mae *Braint y Brenin Ottokar* ar gael nawr am £6.99.

Tri Brawd yn Chwarae i Bentyrch

Cafwyd achlysur go arbennig ar Barc y Dwrlyn yn ddiweddar – tri brawd – Huw, Gwilym ac Aled Rees yn chware gyda'i gilydd dros dim 1af Clwb Rygbi Pentyrch – y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers i'r brodyr Broad ymddangos gyda'i gilydd nôl ar ddiwedd y 1970'au. Yn Llyswen, Heol y Parc cafodd y bechgyn eu codi, y tri yn gyn ddisgyblion Ysgol Plasmawr. Yn anffodus ni chafwyd buddugoliaeth i nodi'r achlysur – colli o un pwynt - 15 -14 – yn erbyn Pendyrus oedd yr hanes gwaetha'r modd, ond roedd rhywfaint o ddathlu hefyd i'r teulu – Gwilym gafodd ei enwi yn Seren y Gêm gyda Huw yn dynn wrth ei sodlau yn y bleidlais. Diolch i'r tri am eu hymroddiad.

Bwriad i Gau Ffordd

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi bwriad i gau ffordd Heol Pantygored rhwng Creigiau a Phentyrch am gyfnod o 11 wythnos o Chwefror 2020 er mwyn gosod pibellau nwy newydd. Efallai nad yw'r Cyngor yn sylweddoli pwysigrwydd y ffordd i bobl lleol. Bydd dargyfeirio bysiau ysgol yn achosi taith ychwanegol o ryw hanner awr bob ffordd.

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd

Cynllun newydd i helpu dysgwyr Cymraeg yn eich ardal chi

Eisiau helpu dysgwyr Cymraeg?

Mae 'Siarad' yn gynllun sy'n paru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr.

Y nod ydy rhoi hyder i ddysgwyr i siarad a defnyddio mwy o'r iaith.

Oes gennych chi 10 awr sbâr dros y misoedd nesaf?

Am fwy o wybodaeth neu i ymuno â'r cynllun, ewch i'n gwefan:
www.dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/

Neu cysylltwch â'r trefnydd, Rhian Lloyd:
rhian.lloyd@decymru.ac.uk
07824 550 827

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Morganwg / Glamorgan

Llywodraeth Cymru Welsh Government
CYMRAEG Dysgu Learn